| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**BRO'R WENYNEN, GWENT 2027** |
| | **Cystadleuaeth 141 – Llefaru Unigol Bl.10 a dan 19 oed** |
| | **Detholiad o 'I'r hen ddaear wyw', Sioned Erin Hughes**<br>Yn wyneb cynhesu byd-eang |

A phan gyrhaeddodd hi ben ei thennyn, doeddet ti ddim o gwmpas i edifar. Fasa hi ddim balchach o hynny beth bynnag. Poer yn ei hwyneb fyddai ymddiheuriad. Achos mi ddaru hi dy rybuddio di, do?

'Mi edrycha i ar d'ôl di, ond dwi'n disgwyl yr un driniaeth yn ôl.'

Peidio â'i chymryd hi'n ganiataol, ti'n cofio? Ond roedd bob dim mor swnllyd, mor llachar a chwyddedig nes gwneud dyn dall a byddar ohonot.

Roedd hi'n sibrwd weithiau hefyd.

'Plis, plis callia.'

Roedd hi ar ei *gliniau*! Ond be wnest ti? Mynd o'r tu arall heibio, fel erioed.

Roedd hi'n llawn hyd yr ymyl o obaith ac yn rhy faddeugar o lawer. Roedd hi wir yn credu yn ei chalon y byddet ti'n dod at dy goed ryw ddydd.

Ond mi weithiaist i'r gwrthwyneb a llifio'r coed i lawr. A doedd y rheiny ddim yn ddigon i dy gadw di'n gynnes chwaith, nag oedd? Felly mi losgaist dy nwy a dy olew a rhoi dy fysedd yn dy glustiau pan glywaist ti'r tagu.

Roedd hi'n wael erbyn hynny ac yn synhwyro'r diwedd. Ond roeddet ti'n mynnu mwy ganddi, yn amhosib dy fodloni. Mi fynnaist y teclynnau a'r dillad diweddaraf i geisio llenwi'r angen diwaelod hwnnw tu mewn iti, a'u fflachio o flaen ei llygaid, jest o ran sbeit.

Be oeddet ti'n ei ddisgwyl, ddyn? Oeddet ti wir yn meddwl byddai'n cymryd dy lol di am byth?